

# ffotogallery

## Cyflwyniad i Rôl: Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu



Fel un o sefydliadau arweiniol y DU ym maes ffotograffiaeth gyfoes a chelf drwy lens, mae'r gwaith o gomisiynu a chyflwyno gwaith rhagorol ac amrywiol o bob cwr o'r byd yn ganolog i genhadaeth Ffotogallery, ynghyd â chefnogi datblygiad artistiaid ac arddangos gwaith cyffrous newydd a ddatblygwyd yng Nghymru.

Mae hwn yn gyfle i ymuno â'n tîm uchelgeisiol a dynamig ar adeg arbennig o gyffrous: eleni rydym yn lansio tymor o weithgareddau ymgysylltu ac arddangosfeydd o ddiwylliannau amrywiol yn ein canolfan newydd yng Nghaerdydd ac ar-lein gan ddefnyddio amrywiaeth o blatfformau gwahanol. Byddwn yn cymryd arddangosfeydd Ffotogallery ar daith, yn creu cynnwys ar-lein ac, yn Hydref 2021, byddwn yn darparu'r pumed Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd, sy'n digwydd bob yn ail flwyddyn.

Yn rôl y Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu yn nhîm Ffotogallery, byddwch yn cyfrannu'n llawn i drafodaethau rhaglennu ac yn arwain y gwaith o ddatblygu partneriaethau a gweithgareddau newydd i roi arddangosfeydd a chyflwyniadau ar-lein ar waith mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb ein cyfranogwyr a'n cynulleidfaoedd targed.

### **Pwy ydych chi?**

Rydych yn berson creadigol, sy'n hynod o frwdfrydig am y celfyddydau gweledol a'u potensial i ennyn diddordeb pobl o bob cefndir. Rydych yn croesawu'r cyfle i ddod yn rhan o dîm bach dynamig ac uchelgeisiol a chyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu prosiectau creadigol. Rydych yn gweld y posibilïadau ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy weithgareddau dysgu ac ymgysylltu, ac yn canfod ffyrdd hygyrch newydd o gyflwyno gwaith artistiaid mewn platfformau ar-lein, yn ogystal ag arddangosfeydd ffisegol.

Mae'r wybodaeth rydych wedi ei dysgu ym maes y celfyddydau a'r cyfryngau'n berthnasol i ofynion y rôl. Bydd eich profiad yn dod â syniadau a safbwyntiau newydd i'n gwaith. Rydych wedi bod yn gweithio am 3 - 5 mlynedd mewn gallu perthnasol; efallai bod hyn yn gysylltiedig â'ch gyrfya yn y celfyddydau, efallai ddim, ond mae angen i chi ddangos profiad a sgiliau trosglwyddadwy y gallwch eu defnyddio yn y rôl hon.

Byddwch yn dod ag agwedd gadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu a datblygu i'r rôl hon. Rydych wedi ymrwmo i ehangu mynediad, cynhwysiad ac amrywiaeth yn y celfyddydau, ac yn mwynhau cydweithio â phobl eraill, yn cynnwys artistiaid, addysgwyr, cynulleidfaoedd a phartneriaid prosiect. Mae angen i chi allu cyfathrebu'n effeithiol gyda'r cyhoedd a chynrychioli gwaith Ffotogallery i bartneriaid yn y cyfryngau a'r wasg.

Rydych yn hapus i deithio i Gaerdydd i weithio neu'n fodlon symud, os oes raid, a byddwn yn darparu cymorth gyda hynny. Neu, efallai bod gennych anghenion arbennig sy'n gofyn cymorth ychwanegol ac addasiadau i'r amgylchedd a'r arferion gwaith; bydd Ffotogallery yn ymdrechu i ymdrin ag unrhyw anghenion sydd gennych gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## **Pwy ydym ni?**

Ers i ni gychwyn, dros ddeugain mlynedd yn ôl, mae Ffotogallery yn credu yng ngrym y celfyddydau gweledol i weddnewid bywydau pobl, p'un a ydyn nhw'n dyheu am fod yn ffotograffwyr ac artistiaid sy'n ceisio eu mynegi eu hunain drwy eu gwaith, neu'n aelod o gynulleidfa sy'n cael cipolwg newydd ar y byd drwy'r delweddau a welant mewn arddangosfa, mewn llyfr neu ar-lein.

Ein gweledigaeth yw bod pawb yn gallu mwynhau profiadau gweddnewidiol drwy ffotograffiaeth a'i chyfryngau cysylltiedig. Mae'n bwysig i ni bod ein harddangosfeydd a'n digwyddiadau, ein cyhoeddi a'n gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu oll yn cysylltu â chymdogaethau a chymunedau o amrywiol ddiwylliannau yng Nghaerdydd a Chymru, gan sicrhau bod y trigolion i gyd yn gallu cyfrannu at ein llwyddiant ac elwa ohono. Am fod gennym gynnig estynedig ar-lein ac am ein bod yn mynd ag arddangosfeydd Ffotogallery ar daith, ynghyd â darparu cyhoeddiadau a chynnal pedair gŵyl Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd, hyd yn hyn, mae estyniad ac effaith ein gwaith yn fyd-eang.

Ym mis Medi 2019, symudon ni i'n cartref presennol yng Nghaerdydd, sy'n ystafell waith ac yn ystafell arddangos; man lle mae syniadau newydd a phrosiectau creadigol yn cael eu cynhyrchu ac hefyd leoliad croesawgar sy'n cynnig profiadau i ysgogi ysbrydoliaeth gyda ffotograffiaeth gyfoes. Yn ogystal â bod yn oriel a man cynnal digwyddiadau rhagorol, mae'r ganolfan newydd yn cynnwys ystafell adnoddau/llyfrgell hygyrch i'r cyhoedd, stiwdio greadigol a siop lyfrau fach. Mae ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, a'n gweithgareddau digidol estynedig, yn ein galluogi i rannu ein harddangosfeydd, prosiectau, archifau a gwaith cyfranogi gyda chynulleidfa fyd-eang ehangach, gan ddarparu llwyfan gyffrous ar gyfer dysgu ac ymgysylltu. Mae'r cyfnod clo estynedig a'r cyfyngiadau ar deithio ac ymgynnull yn gyhoeddus wedi ein hannog i greu a dosbarthu mwy o gynnwys digidol a buddsoddi mewn arddangosfeydd rhithiol a phlatformau ymgolli 3D newydd.

Mae holl waith Ffotogallery ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi ei seilio o amgylch y thema *Nifer o Leisiau, Un Genedl* gyda'r prif amcanion o hybu mwy o amrywiaeth ddiwylliannol, mynediad a chynhwysiad, dysgu gydol oes, arloesi a rhagoriaeth. Mae Ffotogallery yn parhau i weithio'n galed i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol; rydym yn gwerthfawrogi'r rôl y gall pobl o bob rhan o'n cymdeithas ei chwarae wrth greu sîn gelfyddydau fywiog. Gwyddom y bydd y celfyddydau yn y DU, a Chymru yn arbennig, yn gryfach, yn fwy cyffrous ac yn berthnasol i fwy o bobl os byddwn yn croesawu amrywiaeth. Rydym yn edrych yn gyson ar yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn gweithio drwy lygaid ffres, gan wybod y bydd hyn yn helpu i adfywio ein dull ac yn ehangu mynediad i'r celfyddydau.

I ddarllen rhagor am waith Ffotogallery, ewch i'r gwefannau a ganlyn:

[www.ffotogallery.org](http://www.ffotogallery.org)  
[www.diffusionfestival.org](http://www.diffusionfestival.org)  
<https://www.theplaceicallhome.org/>



### **Beth yw rôl y Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu yn Ffotogallery?**

Mae'r Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu yn Ffotogallery yn datblygu, gweithredu a diweddarau rhaglen ddysgu ac ymgysylltu wedi'i hintegreiddio a'i thargedu at gynulleidfaedd a grwpiau cyfranogwyr penodol. Yn yr achos hwn, rydym yn anelu'n benodol at dargedu cymunedau lleol o amrywiaeth o ddiwylliannau ac unigolion a grwpiau yn yr etholaeth ehangach yn lleol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn ein rhaglenni neu nad ydynt yn gwneud defnydd llawn o weithgareddau a gwasanaethau Ffotogallery. Mae'r rôl yn gofyn estyn allan a meithrin perthnasoedd newydd a datblygu'r rhai presennol gydag amrywiol grwpiau, sefydliadau addysg a chelfyddydau mewn cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gyda'r bwriad o gryfhau cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith dysgu ac ymgysylltu. Mae'n ymwneud â chyfathrebu'n effeithiol gyda'r cyhoedd, y wasg, rhanddeiliaid a phartneriaid a chynrychioli gwaith Ffotogallery yn allanol.

### **Beth fydd gofynion y swydd yn y flwyddyn gyntaf?**

Byddwch yn aelod cyfartal o dîm rhaglennu creadigol Ffotogallery, yn cyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau artistig ac hefyd yn cymryd rhan ymhob agwedd o gynllunio a darparu gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu i gyd-fynd â'n holl arddangosfeydd, prosiectau a digwyddiadau, mewn mannau ffisegol ac ar-lein fel ei gilydd. Bydd gennych rôl allweddol i'w chwarae mewn creu partneriaethau newydd a chyfathrebu ein cynnig dysgu ac ymgysylltu i etholaeth ehangach o ddefnyddwyr a chynulleidfaedd.

Byddwch yn aelod allweddol o'r tîm creadigol sy'n cynllunio ac yn darparu'r bumed Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd yn Hydref 2021. O ganlyniad i'r cyfyngiadau ar yr hyn sy'n cael ei ganiatáu yn nhermau teithio ac ymgynnull yn gymdeithasol, bydd Diffusion 2021 yn ddigwyddiad sy'n gyfuniad o'r rhithiol a'r ffisegol, gyda'r gweithgareddau ffisegol yn cynnwys

arddangosfeydd yn sefyll ar eu pennau eu hunain o amgylch y ddinas ac mewn lleoliadau eraill y tu allan i Gaerdydd, tafluniadau ac arddangosfeydd digidol, baneri a gwaith celf ar fyrddau posteri, ac ati. Os yw'r cyfyngiadau Covid wedi eu llacio, bydd digwyddiadau ac arddangosiadau mewn orielau hefyd, ond rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar gyflwyno gwaith a gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu nad ydynt yn ddibynnol ar gael safleoedd sy'n agored i ymwelwyr ffisegol.

### **Sut bydd Covid-19 yn effeithio ar y rôl?**

Rydym yn byw mewn cyfnod ansicr am na wyddom beth fydd y cyfyngiadau ar deithio, ymgynnull yn gyhoeddus a mynediad i'n gweithle yn y dyfodol. Parhaodd y tîm i weithio yn ystod y cyfnod clo drwy fod yn hyblyg gyda strwythur ein gwaith a chadw cydbwysedd rhwng y cartref a'r gwaith yn nhermau ein hamserlen waith. Mae mesurau newydd yn eu lle erbyn hyn a luniwyd i sicrhau hyder a lles y staff a'r ymwelwyr, ac mae eu hiechyd a'u diogelwch nhw o'r pwysigrwydd mwyaf i ni. Am fod y sefyllfa'n newid drwy'r amser, byddwn yn trafod trefniadau gweithio priodol i chi yng nghyd-destun eich rôl a chanllawiau iechyd cyhoeddus.

### **Pa gymorth allai Ffotogallery ei gynnig i mi?**

Byddwn yn eich helpu i dyfu yn y rôl ac yn rhoi'r cyfle i chi ehangu eich gwybodaeth a'ch profiad, yn ogystal â'ch helpu i gynllunio eich rhaglen waith.

Wedi i chi gael cyflwyniad cynefino llawn, byddwch yn derbyn cymorth llawn gan eich rheolwr llinell ac adborth a chyngor ynglŷn ag ymdrin ag artistiaid a phartneriaid, creu cyllideb, logisteg a negodi adnoddau.

Bydd y Tîm yn eich helpu i gyfarfod cysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac yn rhoi cyngor i chi am bartneriaid posibl newydd. Bydd cyfle i chi gynrychioli Ffotogallery mewn digwyddiadau rhwydweithio a chynadleddau ac arwain trafodaethau gyda phartneriaid am drefniadau cydweithio posibl. Os yw'n ofynnol, cewch eich cyflwyno i sîn gelfyddydau Caerdydd a Chymru, ac amrywiol rwydweithiau celfyddydau a diwylliannol lleol a chenedlaethol.

### **Disgrifiad o'r Swydd: Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu (35 awr yr wythnos/llawn amser) Swydd barhaol (yn amodol ar gyfnod prawf o chwe mis)**

#### **Trosolwg o'r rôl**

Mae Ffotogallery yn cychwyn ar raglen ddatblygu uchelgeisiol dros y 18 mis nesaf sy'n cynnwys darparu'r pumed ŵyl ddwyflynyddol Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd yn Hydref 2021, a chyfres o arddangosiadau ar-lein a ffisegol, gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu cyhoeddus, cyfnodau preswyl i artistiaid a phrosiectau cyhoeddi gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym eisiau i'n gwaith fod yn amrywiol yn ddiwylliannol ac yn berthnasol yn gymdeithasol, yn hygyrch a chynhwysol, ac ysbrydoli eraill, yn hen ac ifanc, mewn ffordd sy'n datblygu eu potensial creadigol. Fel Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu yn nhîm Ffotogallery, byddwch yn cyfrannu'n llawn at drafodaethau rhaglennu ac yn arwain y gwaith o ddatblygu partneriaethau a gweithgareddau newydd er mwyn rhoi arddangosfeydd a chyflwyniadau ar-lein ar waith mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb ein cyfranogwyr a'n cynulleidfaoedd targed.

## **Cysylltiadau Gwaith**

Bydd y Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu'n aelod o dîm craidd Ffotogallery, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys David Drake, Cyfarwyddwr, Alex Butler, Rheolwr Gweithrediadau, Marc Arkless, Rheolwr Arddangosfeydd, Liz Hewson, Cydlynnydd Cynhyrchu a Cynthia Sitei, Cynhyrchydd Creadigol.

Yn ogystal, rydym yn cynnal cynllun interniaeth gyda thâl yn rheolaidd, yn ogystal â defnyddio cronfa o weithwyr llawrydd a chyflenwyr i ddarparu prosiectau penodol ac agweddau o'n rhaglen. Gweithio'n hyblyg ac ar y cyd yw ein ffordd arferol o weithio o ystyried bod ein sefydliad yn weddol fach a bod angen gwneud dyletswyddau pobl eraill pan fydd absenoldebau oherwydd gwyliau a salwch.

Y Cyfarwyddwr yw rheolwr llinell y Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu, a bydd yn gweithio'n agos â phartneriaid a staff eraill Ffotogallery fel y bo'n briodol i'r rôl a'r cyfrifoldebau.

Rydym yn sefydliad sy'n ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac o fewn cyfyngiadau'r gyllideb mae'r staff i gyd yn derbyn hyfforddiant a chymorth gyda'u datblygiad, mentora a chyfle i gysylltu â rhwydwaith o gymheiriaid a chyn-fyfyrwyr sy'n gweithio yn y sector celfyddydau a diwylliant ar draws y DU.

## **Cyflog/Oriau/Gwyliau**

Y cyflog yw £25,000 y flwyddyn am 35 yr awr yr wythnos dros 5 diwrnod. Oriau agor i fusnes Ffotogallery yw 9.30am – 5.30pm o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn. Bydd diwrnodau gwaith pob aelod o staff wedi eu hamserlennu yn unol â hynny. Pan fydd angen gweithio tu allan i'r oriau arferol, er enghraifft pan fydd ymrwymadau gyda'r nos ac ar y penwythnosau, caniateir amser i ffwrdd o'r gwaith yn gyfnewid am hynny. Mae gan Ffotogallery gynllun pensiwn cwmni yn unol â gofynion y Llywodraeth. Cronnir hawliau gwyliau ar sail 2 ddiwrnod y mis a weithiwyd, a gwyliau cyhoeddus.

## **Prif ddyletswyddau/Cyfrifoldebau**

- Cysylltu ag artistiaid, partneriaid, gweithwyr llawrydd a chyflenwyr, fel y bo'n ofynnol, i gynllunio a darparu'r rhaglen ddysgu ac ymgysylltu.
- Ymchwilio cyfleoedd newydd a threfnu partneriaethau newydd i ehangu cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith, gyda ffocws ar amrywiaeth, mynediad a chynhwysiad
- Darparu gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu, cynadleddau, sgysiau a digwyddiadau
- Cynhyrchu cynnwys creadigol ar gyfer gweithgareddau ac adnoddau dysgu ac ymgysylltu, i gael eu dosbarthu ar amrywiol blatfformau ffisegol ac ar-lein
- Arwain ar raglenni hyfforddi a datblygiad proffesiynol Ffotogallery ar gyfer y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau, yn cynnwys sesiynau ymarfer proffesiynol, cynlluniau interniaeth gyda thâl a chyfleoedd i wirfoddoli
- Cynrychioli'r sefydliad yn allanol, fel y bo'r gofyn, yn nhermau ein hamrywiol bartneriaethau addysgol, diwylliannol a chyfryngau, gallu cyflwyno cwrpas cyflawn ein gwaith mewn cynadleddau, digwyddiadau masnach ac wrth ymdrin â gofynion gan y wasg a'r cyfryngau

- Darparu teithiau wedi'u tywys ar gyfer ymwelwyr a chyfrannu at ddarpariaeth ein digwyddiadau a'n gweithgareddau a ddarperir i'r cyhoedd
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i staff, fel y bo'n ofynnol
- Gwneud gweithgareddau ychwanegol penodol, fel sy'n ofynnol gan y rôl, ar gais y Cyfarwyddwr

## Manyleb y Person

Mae eich profiad bywyd, brwdfrydedd ac angerdd am y celfyddydau'n bwysicach i ni na chymwysterau ffurfiol a'r nifer o swyddi yn y celfyddydau yr ydych wedi eu gwneud yn y gorffennol. Ond, mae'n rhaid i chi fod yn hyderus yn cyflwyno a gweithredu syniadau ar gyfer gwaith dysgu ac ymgysylltu ac mewn datblygu perthnasoedd newydd a phartneriaethau ffrwythlon ar y lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Yr hyn a ofynnwn yw eich bod yn gallu dod â syniadau a safbwyntiau newydd i'n gwaith, sy'n adlewyrchu eich gyrfa yn y celfyddydau a 3-5 mlynedd o brofiad gwaith. Gallai eich profiad creadigol gynnwys prosiectau yr ydych chi eich hun wedi eu cychwyn neu brosiectau yr ydych wedi gweithio arnynt gyda phobl eraill mewn lleoliad sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. Pan soniwn am brofiad gwaith, rydym yn golygu eich bod wedi dysgu gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy sy'n dangos eich bod yn gallu dod â syniadau gwreiddiol i fodolaeth, a'ch bod yn dangos creadigrwydd, dyfeisgarwch a'r gallu i weithio'n dda mewn tîm.

Rydych ar gam cynnar-canolig yn eich gyrfa yn y celfyddydau, ac efallai eich bod wedi wynebu rhwystrau wrth geisio symud ymlaen yn eich gyrfa. Os felly, byddai profiad personol o ymdrin â'r heriau hyn yn ased o ran deall bod rhai aelodau penodol o gymdeithas yn teimlo wedi eu hatal rhag cyfranogi'n llawn yn y proffesiynau celfyddydau a chyfryngau.

Rydych yn croesawu'r cyfle i weithio i sefydliad cefnogol sydd wedi'i ymrwymo i amrywiaeth a chynhwysiad, ac i fod yn rhan o rwydwaith ehangach yn y DU a derbyn cyngor am gynnydd gyrfaol, hyfforddiant a mentoriaeth.

Rydych yn edrych ymlaen yn fawr at gyfranogi yn y gwaith o greu sector celfyddydau a diwylliannol mwy cyfartal a chynrychiadol yn y DU, gan gyfrannu at y prosesau o newid y mae angen mor argyfyngus amdanynt.

*D.S. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed ac yn disgwyl i'r staff i gyd rannu'r ymrwymiad hwn. Mae'r swydd hon yn gofyn gweithio mewn gweithgareddau rheoledig. Os ydych yn llwyddiannus, byddwn yn gwneud gwiriadau recriwtio ychwanegol a fydd yn cynnwys gwiriad i weld a ydych wedi cael unrhyw euogfarnau troseddol, gwiriad o wybodaeth yr heddlu a gwiriad o'r rhestr(au) gwahardd. Mae'n drosedd i unigolion sydd wedi eu gwahardd wneud cais am swydd mewn gweithgaredd rheoledig.*

*Am fod y swydd hon yn cynnwys gweithio gyda phlant, oedolion agored i niwed neu ymdrin â gwybodaeth sensitif, byddwn yn gofyn am eirdaon ysgrifenedig ac yn sicrhau eu bod ar gael i'r cyfweilwyr cyn y cam dethol terfynol.*